TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Animal Care - Farm Animals & Small Animals Level 2

Yn gryno

O gwn i adar, gecoaid i dsintsilas, a defaid i fulod.. os ydych yn caru anifeiliaid, Coleg Gwent yw'r lle i chi!

Mae'r cwrs llawn amser hwn yn para blwyddyn, a byddwch yn cael y wybodaeth a'r sgiliau i weithio gydag amrywiaeth o anifeiliaid, yn cynnwys anifeiliaid fferm, anifeiliaid bach, ymlusgiaid, adar a mamaliaid. Cewch gyfle i arbenigo mewn llwybrau fferm, amaethyddol a chefn gwlad; llwybr anifeiliaid bach; neu lwybr tacluso a gofal. Felly, waeth beth yw eich diddordeb, mae llwybr ar gael ar eich cyfer chi.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Mae gennych ddiddordeb mewn anifeiliaid fferm ac amaethyddiaeth, anifeiliaid bach, tacluso ac ymddygiad

... Rydych eisiau cael profiad ymarferol o weithio gydag amrywiaeth o anifeiliaid

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

... Rydych eisiau cyfuniad o astudio yn y dosbarth a gwaith ymarferol

... Rydych eisiau gyrfa yn gweithio gydag anifeiliaid

... Rydych yn caru anifeiliaid, yn cynnwys anifeiliaid mawr a bach!

Beth fyddaf yn ei wneud?

Mae hwn yn gwrs academaidd, sy'n cael ei gefnogi gan waith ymarferol rhesymol ag anifeiliaid. Byddwch hefyd yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau drwy leoliad gwaith am un wythnos.

Byddwch yn astudio amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a chefn gwlad / anifeiliaid bach / cwn a thacluso). Er enghraifft, byddwch yn edrych ar:

Sgiliau ystadau
Cynefinoedd
Llety anifeiliaid
Bwydo anifeiliaid
Gofalu am anifeiliaid fferm
Iechyd anifeiliaid
Tacluso
Profiad gwaith
Ymddygiad anifeiliaid
Gofal ceffylau

Cewch hefyd gyfle i weithio gydag offer a pheiriannau, yn cynnwys gyrru tractor ar y fferm a gwaith cynnal a chadw sylfaenol, megis ffensio ac atgyweirio gwrychoedd, ac offer tacluso, i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i weithio gydag anifeiliaid.

Yn ystod y sesiynau ymarferol, byddwch yn gweithio gydag amrywiaeth o anifeiliaid yn ein Canolfan Gofal Anifeiliaid ar gampws Brynbuga, lle ceir ystod o anifeiliaid o ffuredau a gwiwerod rhesog, i nadroedd a phryfed cop. Byddwch hefyd yn gweithio gyda'r defaid a'r gwartheg yn Fferm Rhadyr, a cheffylau yn y Ganolfan Geffylau ar Gampws Brynbuga.

Asesir y cwrs gan ddefnyddio aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig i ddangos eich cymhwystra a'ch dealltwriaeth, ac ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill y cymwysterau canlynol:

Lefel 2 mewn Gofal Anifeiliaid

Gweithgareddau Sgiliau

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau.

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I wneud cais am y cwrs hwn, byddwch angen:

lleiafswm o 4 TGAU gradd D neu uwch, yn cynnwys naill ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg
NEU gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol yn y maes galwedigaethol perthnasol sy'n cynnwys un ai TGAU Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg gradd

Mae ymrwymiad llawn i gyfraniad a phresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd tuag at y pwnc, parch at anifeiliaid â'r gallu i gymell eich hun.

Bydd disgwyl i chi gymryd rhan yn yr holl sesiynau ymarferol gydag anifeiliaid a chyflwyno eich holl aseiniadau ar amser. Byddwch yn cael eich asesu'n barhaus, ac mae disgwyl eich bod yn parhau gyda'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs/lleoliad gwaith yn ystod eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl cwblhau'r cwrs, byddwch wedi cymhwyso hyd at lefel 2 mewn Gofal Anifeiliaid. Y cam nesaf yw Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Rheoli Anifeiliaid (gyda Gwyddoniaeth), neu gallwch chwilio am gyflogaeth yn y diwydiannau cysylltiedig, megis parlyrau tacluso, siopau anifeiliaid, practisau milfeddygol, cathdai, ffermydd a chynelau cwn.

Gwybodaeth Ychwanegol

Cyn dechrau'r cwrs a gallu gweithio gyda'r anifeiliaid byddwch angen brechiad tetanws diweddar.

Ar gyfer Iechyd a Diogelwch, byddwch hefyd angen prynu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) cyn gweithio gyda'r anifeiliaid. Mae hyn yn cynnwys:

cot labordy glas tywyll
welingtons dur trwm
oferôls glas tywyll
bag i gario eich PPE

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Bydd yn costio oddeutu £40 i brynu'r offer, a dylid gwneud hynny cyn dechrau eich cwrs.